

Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

PLISMONA MEWN DIOGELWCH CYMUNEDOL

DEALL Y PROFFIL YNG NGHYMRU

GORFFENNAF 2021

CYFLWYNIAD

CEFNDIR

Mae gan Lywodraeth Leol a Phlismaona gyfrifoldeb ar y cyd i arwain mewn Diogelwch Cymunedol, gan weithio gyda phartneriaid lleol eraill, a dyna pam y sefydlwyd Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Cymru ar y cyd rhwng Plismaona yng Nghymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i barhau i adnewyddu Diogelwch Cymunedol yng Nghymru. Mae'r rôl a chwaraeir gan yr Heddlu a Llywodraeth Leol felly yn ganolog i ddatblygiad Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru, sy'n anelu at ddod yn llais strategol ar gyfer diogelwch cymunedol yng Nghymru, gan weithio ar y cyd â'i aelodau i hyrwyddo a chefnogi gweithio mewn partneriaeth diogelwch cymunedol ac i ddylanwadu ar lunio a datblygu polisi cenedlaethol a'i gyflenwi'n lleol. Ym mis Ebrill 2021 cynhyrchodd tîm y Rhwydwaith adroddiad gweithlu ar gyfer Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Cymru yn seiliedig ar arolwg a barn arweinwyr diogelwch cymunedol sy'n gweithio mewn Awdurdodau Lleol. Gofynnodd aelodau'r bwrdd am ddarlun cyflenwol o gyfranogiad cyfredol arweinwyr yr heddlu mewn gwaith partneriaeth diogelwch cymunedol lleol. I symud hyn ymlaen, rhoddodd y tîm wahoddiad i'r heddlu sy'n ymwneud â phartneriaethau diogelwch cymunedol, i sesiwn wybodaeth a oedd yn egluro mwy am y gwaith ac am y grŵp ffocws.

NODAU'R GRŴP FFOCWS

- Deall ymgysylltiad yr Heddlu â diogelwch cymunedol a phartneriaethau diogelwch cymunedol ar lefel Awdurdod Lleol ar hyn o bryd.
- Gwella dealltwriaeth cyffredinol ynglŷn â beth yw'r gweithlu diogelwch cymunedol yng Nghymru.
- Canfod amrywiadau yn yr hyn a ddiffinnir fel diogelwch cymunedol ar draws Cymru ar hyn o bryd.
- Cynorthwyo i ddatblygu dealltwriaeth Cymru gyfan er mwyn galluogi, grymuso a chodi proffil diogelwch cymunedol ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
- Helpu i nodi cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a datblygu amlasiantaeth.
- Cefnogi datblygiad rhaglenni er mwyn cynorthwyo'r gweithlu diogelwch cymunedol i barhau â'u gwaith da yn yr amgylchedd gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol.

DULL

Crëwyd grŵp ffocws ar-lein ym mis Mehefin 2021 gan Dîm Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru. Hwyluswyd y sesiwn gan Bennaeth y Rhwydwaith, gan ddefnyddio cyfuniad o becyn arolwg ar-lein, cwestiynau trafodaeth agored a swyddogaeth sgwrsio. Darparwyd dibenion yr ymchwil, camau nesaf a gwybodaeth diogelu data i'r cyfranogwyr. Mae'r holl atebion wedi cael eu trin yn ddi-enw, ac nid oes modd adnabod unrhyw unigolion na'u lluoedd o unrhyw un o'r sylwadau a gyfrannwyd. Roedd atebwyr yn ymwybodol y byddai'r canfyddiadau ac unrhyw argymhellion yn cael eu rhannu gyda'r Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel a Phlismaona yng Nghymru. Mae copi o gwestiynau'r grŵp ffocws wedi'u cynnwys yn atodiad 1.

CYFRANOGWYR

Roedd y grŵp ffocws yn cynnwys 18 o gyfranogwyr, y mwyafrif ohonynt ar lefel Prif Arolygydd. Cynrychiolwyd pob un o'r pedwar heddlu yng Nghymru. Pan ofynnwyd iddynt gyflwyno eu rôl a'u cyfrifoldeb, cyfeiriodd hanner y cyfranogwyr (9 allan o 18) at 'bartneriaethau', datganodd bump ohonynt 'datrys problemau', datganodd bump ohonynt 'diogelwch cymunedol', datganodd bedwar ohonynt 'plismona yn y gymdogaeth' a dau ohonynt 'atal'. Defnyddiodd wyth o'r cyfranogwyr fwy nag un disgrifydd.

CYFYNGIADAU

Roedd y grŵp ffocws wedi'i gyfyngu i ymgysylltiad plismona lleol mewn cyflenwi diogelwch cymunedol. Er mwyn cynnwys barn ehangach gan Blismona yng Nghymru, rhannwyd y canfyddiadau cychwynnol â Swyddfeydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd am sylwadau ychwanegol ac mae barn wedi'i chynnwys ar ran Plismona yng Nghymru (gweler tudalen 7). Yn olaf, nodir mai dim ond 12 allan o'r 18 cyfranogwr a gyfrannodd at elfen arolwg ar-lein y grŵp ffocws.

CANFYDDIADAU

YSTYRIED GWEITHLU'R HEDDLU O FEWN DIOGELWCH CYMUNEDOL AC YMGYSYLLTU AG AWDURDODAU LLEOL

CWMPAS AWDURDODAU LLEOL A MAINT TIMAU

Mae'r cyfranogwyr yn cwmpasu 2.5 ardal Awdurdod Lleol ar gyfartaledd, sy'n golygu eu bod yn debygol o gwmpasu o leiaf dau gyfarfod Partneriaeth Diogelwch Cymunedol. Ar gyfartaledd maent yn gyfrifol am 9 Cwnstabl Heddlu a 30 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu. Roedd yn anodd cyfrifo cymariaethau eraill ond mae timau'n cynnwys ystod o rolau eraill, megis Rhingylliaid yr Heddlu, staff sifil, Swyddogion Ysgolion, Cwnstablaid Arbennig, Gwirfoddolwyr Cymorth yr Heddlu a Gwirfoddolwyr Ieuentid / Cadetiaid yr Heddlu, Cydlynnydd Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.

YMGYSYLLTIAD Â THIMAU AWDURDODAU LLEOL

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr pa adrannau awdurdodau lleol y maent yn ymgysylltu â nhw'n rheolaidd. Allan o'r 12 ymateb, gwelwyd mai'r pump adran yr ymgysylltir â nhw amlaf yw:

1. Tai (pob un o'r 12 cyfranogwr / 100%)
2. Diogelwch Cymunedol (11 / 92%)
3. Tîm Trosedd Ieuentid / Gwasanaeth Ieuentid (11 / 92%)
4. Iechyd yr Amgylchedd (10 / 83%)
5. Cydradd bumed – Addysg ac Ysgolion, Plant a Theuluoedd; Safonau Masnach, Gofal Cymdeithasol ac Iechyd (8 / 67%)

Mae'r heddlu'n ymgysylltu â thimau Awdurdodau Lleol Tai, Diogelwch Cymunedol a Gwasanaethau Ieuentid gan amlaf.





MYNEDIAD AT GYMORTH DADANSODDI DATA AR GYFER DIOGELWCH CYMUNEDOL

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr a ydynt yn cael mynediad at gefnogaeth dadansoddwr data ar gyfer diogelwch cymunedol. Allan o'r 12 ymateb, gwelwyd bod mwyafrif y cyfranogwyr (8 / 67%) yn cael mynediad at gefnogaeth fel hyn.

RÔL PLISMONA MEWN DIOGELWCH CYMUNEDOL/ PARTNERIAETHAU DIOGELWCH CYMUNEDOL Themâu a gododd yn nhrefnodaeth y grŵp ffocws

Perthnasoedd gydag Awdurdodau Lleol yn amrywio

Mae perthnasoedd amrywiol rhwng heddluoedd a gwahanol ardaloedd Awdurdodau Lleol sy'n cael effaith ar bartneriaethau diogelwch cymunedol. Mae perthnasoedd yn amrywio o 'ardderchog' ac 'yn gwella' i 'heriol' ambell waith. Cydnabuwyd bod hon yn her weithredol lle mae timau'n gweithio ar draws Awdurdodau Lleol, ond derbynnir a deallir bod gwahanol anghenion lleol mewn gwahanol olion traed awdurdodau lleol. Mae rhai lluoedd wedi ceisio cysondeb rhanbarthol. Nodwyd bod rôl i'r Rhwydwaith yma.




Yr heddlu yn rhan annatod o ddarparu diogelwch cymunedol

Roedd yn glir bod cyfranogwyr yn gweld rôl plismona fel rhan annatod o ddiogelwch cymunedol. Teimlwyd bod yr heddlu yn aml yn bartner arweiniol ar gyfer gorfodi. Mae llawer iawn o waith datrys problemau'n cael ei wneud gan yr heddlu sy'n cael effaith ar y galw ac adnoddau. Teimla'r cyfranogwyr bod ffocws ar ddyletswyddau'r Heddlu fel asiantaeth arweiniol, er mai nid yr Heddlu yw deiliad statudol y ddyletswydd hon yn aml, ac mae eraill a allai fod mewn gwell sefyllfa i gynorthwyo.

Mae adnoddau'n broblem gyffredin

Mae'r cyfranogwyr yn disgrifio anawsterau cael cyllid ar gyfer diogelwch cymunedol. Mae hyn yn rhwystr ond mae cyfleoedd wedi bod hefyd ar gyfer ymrwymiad allanol (Strydoedd Mwy Diogel) a mewnol (Heddlu) i gynyddu adnoddau (staff) ar gyfer diogelwch cymunedol.



Datrys problemau fel cryfder

Mae perthynas yr heddlu â diogelwch cymunedol yn esblygu. Gwelir bod ffocws a chyfeiriad newydd tuag at waith ataliol. Er enghraifft, cydweithio'n agos o fewn timau cymdogaeth gyda ffocws ar ddatrys problemau a gweithio mewn partneriaeth. Wrth gefnogi unigolion, mae gweithio gydag Awdurdodau Lleol yn dda, ond wrth gymryd camau eraill mae'n bosibl wynebu rhwystrau. Teimla'r heddlu bod disgwyl iddynt yn aml gymryd arweinyddiaeth wrth ddatrys problemau ac felly yn y pen draw maent yn gweithredu fel ymgynghorwyr wrth weithio gyda sefydliadau partner.

CYFLEOEDD A BLAENORIAETHAU AR GYFER GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL

MEYSYDD BLAENORIAETH I WEITHIO MEWN PARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL A DYSGU A DATBLYGU



Gofynnwyd i gyfranogwyr am eu pum maes blaenoriaeth uchaf mewn gwaith partneriaeth diogelwch cymunedol ar hyn o bryd. Allan o'r 12 ymateb, y meysydd blaenoriaeth yw:

Maes Blaenoriaeth Uchaf – Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (pob un o'r 12 cyfranogwr)
 Cydradd ail – Trais yn erbyn Menywod, Camdriniaeth Ddomestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV), Trosedd Casineb, Cydlyniant Cymunedol (7 cyfranogwr yr un)
 Cydradd drydydd – Trais Difrifol a Throseddau Cyfundrefnol, Camddefnyddio Sylweddau (6 cyfranogwr yr un)

MEYSYDD BLAENORIAETH AR GYFER DYSGU A DATBLYGU AMLASiantaeth

Ymddygiad gwrthgymdeithasol
a Sbardun Cymunedol

Atal Trais

Cynllunio troseddu allan

Dulliau datrys problemau

CONTEST (gan gynnwys Atal)



SYLWADAU CYFRANOGWYR – CYFLEOEDD


“Hoffwn i weld”:

“Rhannu ymarfer gorau, sefydlu diwylliant ataliol ar draws y tirlun plismona a phartneriaethau.”

“Dogfen ariannu fel ein bod yn gwybod ble i droi / meini prawf i atal yr ymgiprys i ganfod cyllid.”

ARCHWILIO RHWYSTRAU / CYFLEOEDD I GYFLENWI DIOGELWCH CYMUNEDOL

Hoffai mwyafrif y cyfranogwyr
(15 allan o 17) fod yn rhan o
grŵp Rhwydwaith Diogelwch
Cymunedol
(roedd 2 yn ansicr)



Cododd tri maes thema o'r drafodaeth ynglŷn â rhwystrau a chyfleoedd.

Rhannu gwybodaeth

Cydnabyddir bod gan nifer o bartneriaethau Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPi) mewn lle er mwyn rhannu gwybodaeth ac mae rhai Awdurdodau Lleol hefyd yn cael mynediad at systemau'r heddlu. Fodd bynnag, mynegodd rhai cyfranogwyr eu bod yn dymuno cael yr holl systemau'n siarad gyda'i gilydd neu drefniant plattform lle mae modd rhannu'r holl wybodaeth berthnasol yn hawdd.

Mesur Atal

Cyd-gytunwyd bod mesur llwyddiant atal yn gallu bod yn anodd ac mae diffyg ffocws ar ganlyniadau. Yn yr un modd, wrth ystyried datrys problemau, credir bod canfyddiadau o ganlyniadau cadarnhaol yn amrywio, megis gwella hyder a barn y cyhoedd, arbedion a wnaed neu droseddau a gofnodwyd. Mae hwn yn rhwystr ac yn gyfle i bartneriaethau diogelwch cymunedol ystyried. Amlygwyd bod gan y sector gwirfoddol fwy o brofiad o fesur llwyddiant eu hymyraethau a gallent ddysgu ar gyfer diogelwch cymunedol.

Strydoedd Mwy Diogel

Cyd-gytunwyd bod y gronfa Strydoedd Mwy Diogel yn gyfle da ar gyfer diogelwch cymunedol ond mae'r ceisiadau a'r gweithrediad yn defnyddio llawer o adnoddau ac nid ydynt bob amser yn briodol neu ar gael i bob ardal. Fodd bynnag, mae gweithredu Strydoedd Mwy Diogel wedi gwella perthnasoedd partneriaethau lleol a chydweithio ac wedi rhoi ysgogiad i'r rownd nesaf o gyllid.



SYLWADAU CYFRANOGWYR – CYFLEOEDD

“Credaf y bydd y pecyn offer neu'r arweiniad [diogelwch cymunedol] ar gyfer beth yw cyfrifoldebau / disgwyliaidau pob awdurdod, yn ddefnyddiol.”

“[Hoffwn i weld] cyfleoedd am gyllid ac annog llai o fiwrocratiaeth a chyfarfodydd di-angen.”

YSTYRIAETHAU PLISMONA STRATEGOL

BARN O SAFBWWYNT PLISMONA YNG NGHYMRU

Mae rhywfaint o syniadau cychwynnol wedi cael eu darparu am y canfyddiadau o safbwynt Plismona yng Nghymru. Nodir yn ogystal â'r pwyslais newydd ar Ddiogelwch Cymunedol gan Brif Gwnstablaid a Chomisiynwyr Heddlu a Throsedd yng Nghymru, mae ymrwymiad cryf hefyd i gynnal a chryfhau Plismona yn y Gymdogaeth. Mae darparu 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ychwanegol wedi cynorthwyo'n fawr â hyn. Ariannwyd hynny gan Lywodraeth Cymru a disgwylir 100 arall dros y flwyddyn nesaf. Awgrymir bod angen dangos yn fwy clir beth yw'r berthynas rhwng y ddau faes gwaith o fewn plismona er mwyn cynorthwyo'r Heddlu a'r Awdurdod Lleol i ddatblygu ac adnewyddu'r ffordd y cyflawnir eu cyd-gyfrifoldeb dros arwain Diogelwch Cymunedol yn lleol, gan ymgysylltu ag asiantaethau partner eraill yn ogystal â'r Sector Gwirfoddol a chymunedau.

Mae'r canfyddiadau cychwynnol yn dangos nad yw Diogelwch Cymunedol bob amser yn cael ei ystyried yn gyfrifoldeb strategol ar y cyd rhwng yr awdurdod lleol a'r heddlu sy'n cydweithio. Yn hytrach mae'n cael ei weld gan swyddogion fel gwaith sy'n angenrheidiol yn lleol - gyda chysylltiadau rhwng plismona lleol a gwahanol adrannau llywodraeth leol yn aml yn angenrheidiol yn hytrach nag fel rhan o'r dull diogelwch cymunedol a rennir a oedd yn ofynnol o dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Mae'n debyg bod hyn yn effaith anochel o golli adnoddau oherwydd Cyni dros y ddegawd diwethaf gan arwain at golli adnoddau diogelwch cymunedol mewn Plismona a Llywodraeth Leol fel ei gilydd. Mae anghysondeb mynediad at allu dadansoddol yn bryder hirsefydlog yr aethpwyd i'r afael ag ef yn ystod gwaith Llywodraeth Cymru ar adnewyddu Diogelwch Cymunedol trwy faes gwaith dan arweiniad y Comisiynydd Dafydd Llewelyn.

Mae'r cynnydd disgwylidig yn niferoedd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a mwy o eglurder am eu cyfrifoldebau yn berthnasol i Ddiogelwch Cymunedol. Prif bwrpas y rôl yw cyfathrebu (gyda'r gymuned leol ac o ran gwranddo ar y gymuned leol), datrys problemau lleol (gweithio gyda'r gymuned leol i fynd i'r afael â materion a nodwyd yn lleol) a galluogi'r gymuned leol i fynd i'r afael â'u materion eu hunain.

Yn ystod y pandemig, mae Plismona wedi golygu ymateb i amgylchedd newydd a heriol mewn ffyrdd arloesol, gyda phwyslais yng Nghymru ar weithio mewn partneriaeth. Mae datblygu Timau Gorfodi ar y Cyd (JETs) wedi bod yn llwyddiannus mewn nifer o ardaloedd awdurdodau lleol ac mae awydd mewn sawl maes i adeiladu ar y gwaith hwn yn y dyfodol, gyda phwyslais ar atal ac ymateb i bryderon cymunedol yn hytrach nag ar sail gorfodi yn unig.

Mae ein heddluoedd yn cymryd rhan mewn nifer o feysydd gwaith eraill ac er nad ydynt i gyd yn disgyn o fewn strwythurau diogelwch cymunedol, maent i gyd yn uniongyrchol berthnasol i ganlyniadau llwyddiannus. Mae swyddogion heddlu yn gweithio ar secondiad i'r Tîm Troseddu Ieuencid Lleol (Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid) tra bo Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru yn cael ei ariannu ar y cyd gan yr Heddlu a Llywodraeth Cymru i ddarparu gwasanaeth cyffredinol mewn ysgolion ledled Cymru. Mae trafodaethau ar y gweill i geisio canfod ffyrdd y gall yr heddlu gyfrannu at ymgysylltu mwy gyda phlant a phobl ifanc mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion ac yn ystod gwyliau ysgol.

BARN O SAFBWyNT PLISMONA YNG NGHYMRU – PARHAD

Mae'r canfyddiadau hefyd yn nodi teimlad o fewn yr heddlu bod swyddogion yn disgwyl ymgymryd â rolau a ddylai ambell waith gael eu cyflawni gan asiantaethau eraill, neu a fyddai'n fwy addas ar gyfer proffesiynau eraill i fynd i'r afael â nhw. Mae angen trafod sut y gellir mynd i'r afael â materion felly o fewn y model partneriaeth diogelwch cymunedol lleol ac a ydynt, o fewn plismona, yn cael eu hystyried yn rhan o ddiogelwch cymunedol ynteu plismona yn y gymdogaeth.

Mae'r canfyddiadau hefyd yn awgrymu bod angen archwilio sut mae datrys problemau yn cael ei drin o fewn modelau diogelwch cymunedol ledled Cymru ac a oes modd dysgu gwersi trwy edrych ar dulliau datrys problemau o fewn plismona, llywodraeth leol ac asiantaethau eraill. Mae'r Rhwydwaith yn ceisio helpu gyda'r ystyriaethau hyn. Mae'r rhain yn syniadau cychwynnol ar gyfer trafodaethau o fewn Plismona yng Nghymru yn ogystal â gyda'r Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel a thrwy'r Rhwydwaith.

TRAFODAETH A CHASGLIAD

Wrth ystyried canfyddiadau'r grŵp ffocws, y sylwadau dilynol o safbwynt Plismona yng Nghymru a hefyd yr adroddiad Awdurdodau Lleol cynharach a gwblhawyd ym mis Ebrill 2021 gan Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru (Deall proffil diogelwch cymunedol yng Nghymru: Arolwg gweithlu Awdurdodau Lleol), cafodd yr arsylliadau canlynol eu gwneud:

1. Roedd barn cyfranogwyr yn pwysleisio rolau arbennig Awdurdodau Lleol a'r Heddlu o fewn Diogelwch Cymunedol, yn hytrach nag adlewyrchu'n gywir yr ymdrechion ar y cyd. Mae perthnasoedd gwaith agos yn bodoli, ond o fewn is-adran o gyfrifoldebau diogelwch cymunedol lleol.
2. Mae materion cyffredin yn amlwg ar draws Awdurdodau Lleol a'r Heddlu, gan gynnwys diffyg adnoddau, yn enwedig ar gyfer datblygu gweithgareddau diogelwch cymunedol. Pwysleisiodd cyfranogwyr o Awdurdodau Lleol effaith diffyg cyllid ar staffio gwaith diogelwch cymunedol. Roedd cyfranogwyr yr heddlu yn sôn llai am hynny ond roeddent yn cydnabod bod cwmpasu mwy nag un Partneriaeth Diogelwch Cymunedol yn eu hystyried. Mae cyfle i archwilio sut y gall rolau ychwanegol, fel Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, gefnogi gwaith y bartneriaeth.
3. Roedd yn galonogol bod Awdurdodau Lleol a'r Heddlu wedi amlygu meysydd blaenoriaeth tebyg ar gyfer eu gwaith - Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd Casineb a Chydlyniant Cymunedol. Gallai hynny fod oherwydd yr heriau cynyddol a'r cydweithio o fewn y meysydd hyn ers dechrau'r pandemig. Fodd bynnag, roedd ymwahaniad, lle roedd arweinwyr Awdurdodau Lleol yn amlygu Contest fel maes blaenoriaeth, gan gydnabod eu rôl o fewn yr Agenda Atal. Roedd yr Heddlu ar y llaw arall yn gweld VAWDASV a Thrais Difrifol a Throseddau Cyfundrefnol yn flaenoriaethau uwch.
4. Mae defnyddio a chael mynediad at ddadansoddwyr wedi cael ei drafod yn y gorffennol yn Adolygiad Gweithio gyda'n Gilydd i Greu Cymunedau Mwy Diogel Llywodraeth Cymru 2017. Mae diffyg dadansoddwyr gan y bartneriaeth a dibyniaeth ar ddadansoddwyr yr heddlu, sydd â mwy ohonynt ar gael. Mae hyn yn rhwystr i weithio ar sail tystiolaeth a pharatoi ceisiadau pendant am gyllid.

TRAFODAETH A CHASGLIAD – PARHAD

5. Mae'r rhwystrau a'r cyfleoedd a amlygwyd gan yr Heddlu yn cynnwys – cyfle ychwanegol i rannu gwybodaeth, gwell ffyrdd o fesur atal a dysgu o brosiectau 'Strydoedd Mwy Diogel'. Ond i arweinwyr Awdurdodau Lleol, cydnabuwyd bod newid wedi bod ar draws llywodraeth leol lle gall gwaith diogelwch cymunedol traddodiadol eistedd ar draws gwahanol adrannau, gan gynnwys diogelu a thai. Adlewyrchir hyn yn nisgrifiad yr Heddlu o ymgysylltiad yr Awdurdodau Lleol a gall weithio fel cyfle mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth. Nododd un cyfranogwr bod "diogelwch cymunedol yn rhedeg trwy nifer o adrannau" ac ymddengys bod hyn hefyd yn cael ei adlewyrchu o fewn strwythurau plismona, boed hynny'n 'bartneriaethau', 'plismona yn y gyndogaeth' neu 'ddatrys problemau'.

Cydnabyddir bod newidiadau ar y gweill o fewn diogelwch cymunedol, gyda phwyslais gan Blismona yng Nghymru ar ychwanegu egni newydd. Mae'r profiad trwy gydol pandemig COVID-19 – yn enwedig effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth trwy Dimau Gorfodi ar y Cyd, wedi arwain at drafodaethau lleol rhwng yr heddlu a llywodraeth leol ynglŷn â gweithio mewn partneriaeth i atal ar y cyd yn y dyfodol. Gobeithir y bydd yr adroddiad hwn, ynghyd â'r adroddiad Awdurdodau Lleol, yn darparu sail i'r Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel i ddatblygu ei syniadau am batrwm Diogelwch Cymunedol yng Nghymru yn y dyfodol.

Argymhellion

Awgrymir y dylai argymhellion yr adroddiad Awdurdodau Lleol barhau yn berthnasol. Mae'r rhain wedi'u diweddarau fymryn (argymhelliad 3) ac maent yn cynnwys:

1. Bod yr adroddiad hwn yn cael ei gydnabod a'i dderbyn gan Fwrdd Cymunedau Mwy Diogel Cymru.
2. Bod y Bwrdd yn hyrwyddo gwaith Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru i gynorthwyo i godi proffil Diogelwch Cymunedol ar draws Cymru – yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
3. Bod y Bwrdd yn hyrwyddo gwaith Rhwydwaith Arloesi a Gwella Data a Dadansoddi yng Nghymru er mwyn cefnogi newid diwylliant o rannu data ar draws y sector cyhoeddus (yn unol â'r strategaeth ddigidol ar gyfer Cymru gan Lywodraeth Cymru).
4. Bod Aelodau'r Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel yn ystyried adolygu'r adnoddau y mae eu sefydliadau yn eu darparu i weithgareddau diogelwch cymunedol.
5. Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru i gynnal arolwg gwaelodlin ehangach (i'w ailadrodd yn flynyddol) i dderbyn safbwyntiau a data gan yr holl asiantaethau sy'n rhan o Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol ar ystod ehangach o destunau, gan gynnwys rôl a chyfrifoldebau, ac adnoddau i gynnal gweithgareddau diogelwch cymunedol yn lleol.

Argymhelliad pellach –

6. Bod Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru yn cwmpasu'r cyfle i sefydlu grŵp arweinwyr Diogelwch Cymunedol ar y Cyd, sy'n dod ag Awdurdodau Lleol a Phlismona ynghyd â phartneriaid allweddol eraill i gydweithio ar ddysgu a datblygu ymarfer.

ATODIAD 1 – RHESTR O GWESTIYNAU GRŴP FFOCWS

Cyflwynwch eich hun yn y bar sgwrsio a nodwch sut ydych yn gysylltiedig â Diogelwch Cymunedol ar hyn o bryd.

Beth yw rôl plismona mewn diogelwch cymunedol / partneriaethau diogelwch cymunedol?

Faint o Awdurdodau Lleol ydych chi'n eu cwmpasu a faint, yn fras, o swyddogion o fewn plismona yn y gymdogaeth / partneriaethau sydd gennych yn eich timau?

Pa adrannau awdurdodau lleol ydych chi'n ymgysylltu â nhw'n rheolaidd?

Ydych chi'n cael mynediad at gymorth dadansoddi data ar gyfer diogelwch cymunedol?

Beth yw'ch 5 prif maes blaenoriaeth o ran gwaith partneriaeth diogelwch cymunedol?

Dangoswch unrhyw feysydd blaenoriaeth ar gyfer dysgu a datblygu amlasiantaeth.

Dywedwyd wrthym bod rhywfaint o rwystrau wrth geisio cyflenwi diogelwch cymunedol. Megis, diffyg adnoddau (cyllid a staff) a llywodraethu. Ond mae cyfle hefyd i ganolbwyntio mwy ar atal. Beth ydych chi'n meddwl yw'r rhwystrau? Beth ydych chi'n meddwl yw'r cyfleoedd?

Mae nifer o arweinwyr Diogelwch Cymunedol mewn Awdurdodau Lleol yn aelodau o grŵp cymorth ymarferwyr o'r enw Cymdeithas Swyddogion Diogelwch Cymunedol Cymru (WACSO). A yw hyn yn rhywbeth y byddai gennych ddiddordeb ynddo?

A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ychwanegu?

HOFFAI RHWYDWAITH CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU DDIOLCH I'R HOLL
GYFRANOGWYR AM EU CYFRANIADAU TRWY GYMRYD RHAN YN YR ASTUDIAETH.

I gael manylion dosbarthu – gweler tudalen 2
I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â –
CymunedauMwyDiogel@wlga.gov.uk

Hawlfraint 2021 © Rhwydwaith Cymunedau
Mwy Diogel, CLIC